

Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio



Cynyddu bwyd o'r maes i'r eithaf: Annog eich adar i rodio'r maes

Mae mynediad i faes sydd wedi'i gynnal yn dda yn rhan hanfodol o gynhyrchu dofednod organig. Bydd yr adar yn ei ddefnyddio ar gyfer bwyd, lloches a hunanfeddyginiaeth ac mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu bod hyd at 60% o'u hanghenion o ran lysin a methionin a 25% o'u calsiwm yn gallu dod o'r maes. Ond er mwyn cynyddu'r manteision hyn i'r eithaf, mae'n bwysig i'r adar rodio'n eang ac yn fynych. Mae hyn nid yn unig yn cynyddu maint ac amrywiaeth y bwyd y byddant yn ei godi, ond hefyd yn lleihau potsian a chynnydd mewn nitrogen. Mae'r ffeithlen hon yn amlygu rhai o'r pethau y gallwch eu gwneud i annog eich haid i rodio'r maes.

Llystyfiant a Lloches

Mae cael y cydbwysedd iawn o ran rhywogaethau'r planhigion ar y maes yn hanfodol. Ar y maes delfrydol ceir cyfuniad o rywogaethau coed, gwrychoedd a phorthiant glas sy'n cyflawni nifer o swyddogaethau gwahanol fel a ddisgrifir yn Nhabl 1. Mae cywion yn teimlo'n ddiymgeledd braidd pan fyddant yn yr awyr agored felly rhaid helpu iddynt deimlo'n fwy diogel trwy ddarparu llochesi addas megis wigwamiau wedi'u gwneud o logiau neu hyd yn oed hen drol.

Bridiau

Mae rhai bridiau'n rhodio'r maes yn fwy naturiol nag eraill. Mae bridiau hŷn fel Ixworth neu Light Sussex a bridiau sy'n prifio'n arafach megis Master Gris, yn llawer iawn mwy gweithgar ar y maes o'u cymharu â mathau o adar tebyg i Ross. Nid yn unig eu bod yn fwy gweithgar ar y maes yn amlach, maent hefyd yn ymateb yn gynt i fygythiad ysglyfaethwyr ac felly maent yn goresi'n well.

Bwydo

Mae dofednod yn dda iawn wrth reoli eu deiet eu hunain, gan fwyta beth sydd ei angen arnynt yn unig. Os byddwch yn darparu'r holl brotein ar ffurf bwyd wedi'i brynu, byddant yn llawer llai tueddol o fynd i chwilio amdano y tu allan ar y maes. Bydd lleihau'r protein yn y dogn yn gyrru'r adar allan o'r cwt.

Maint yr Haid

Mae astudiaeth gan DEFRA wedi dangos mwya i gyd mae'r haid, lleia i gyd y bydd yr adar yn rhodio'r maes. Mae hyn yn gysylltiedig â'r drefn bigo, cyfundrefn gymdeithasol hierarchaidd yn yr haid. Mae'r system yn dechrau torri mewn heidiau sy'n cynnwys dros oddeutu 200 o adar, a mwya i gyd mae'r had, mwya i gyd y cyfyngir ar y rhodio. Mewn heidiau sy'n cynnwys dros 1500 o adar, dim ond rhyw 5% sy'n rhodio. Mewn haid sy'n cynnwys 500 o adar, tua 40% yw'r ganran, ac mewn haid rhwng 100-200 o adar, bydd yr haid gyfan bron yn rhodio.

Mae'r cysylltiad rhwng y drefn bigo a rhodio heb ei ddeall yn iawn. Credir bod "gwybod ei le" yn y drefn yn cyfrannu i synnwyr diogelwch yr aderyn, sydd, yn ei dro, yn rhoi'r 'hyder' iddo fynd allan ar y maes.



Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif J2 - Chwefror 2011

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithleni na chyhoeddiadau eraill.

Magu

Cynta i gyd y bydd y cywion yn cael mynediad i'r borfa, mwya i gyd y byddant yn rhodio pan fyddant yn troi'n oedolion. Yn yr haf gall hyn fod mor fuan ag o wythnos oed ymlaen, ond mae'n rhaid i chi ddarparu amgylchedd diogel sydd wedi'i amddiffyn rhag brain, bwncathod ac ysglyfaethwyr eraill.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl yn y systemau lu lle nad yw cywion yn cael eu deor ar y maes. Os mai fel hyn yw hi, gallwch ddod â'r maes at yr adar i ryw raddau trwy ddod ag ambell dywarchen i mewn bob dydd a fydd yn gadael iddynt ymgyswyo â golwg a theimlad y byd y tu allan.

Crynodeb

I gael eich haid i rodio'r maes i'r eithaf, gallech:

- Sefydlu amrywiaeth eang o rywogaethau planhigion yn cynnig bwyd, lloches a meddyginiaeth ynghyd â diddordeb cymunedol.
- Darparu lloches ychwanegol ar y maes i beri i'ch adar deimlo'n fwy diogel. Deunyddiau naturiol, e.e. pentyrrau logiau, sydd orau, ond bydd trol, er enghraifft, yn gwneud y tro.
- Dewis bridiau sy'n fwy tueddol o rodio'n naturiol.
- Lleihau faint y bwyd sydd wedi'i brynu y byddwch yn ei ddarparu – anogwch eich adar i fynd allan a chwilio am yr hyn sydd ei angen i sicrhau cydbwysedd maethol.
- Cadw'r haid mor fach ag sy'n bosibl.
- Rhoi mynediad i'r cywion i'r maes mor fuan ag sy'n bosibl.

Cyfeiriadau a gwybodaeth bellach

Mae Canolfan Organig Cymru wedi cynhyrchu canllaw technegol ar gynhyrchu adar bwyta. Gallwch wneud cais am gopi gan y Ganolfan neu'i lawrlwytho o'n gwefan:

http://www.organiccentrewales.org.uk/uploads/poultry_guide_english.pdf



Tabl 1. Rhai rhywogaethau planhigion sy'n llesol i'r maestir a'u swyddogaethau (o: *Silvo-poultry: An agroforestry system for organic chicken production at Sheepdrove Organic Farm*. Lois Philipps, Canolfan Ymchwil Organig, 2002)

Coed	Rhywogaeth	% o'r cymysgedd	Diben
	Onnen	18	Pren
	Ffawydd	12	Pren a mastiau ffawydd
	Masarnen fach	12	Cysgod
	Gwern	12	Cysgod
	Oestrwydd	10	Pren
	Coed ceirios	6	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Coed gellyg	10	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Cerddinen	10	Cysgod
	Coed afalau	5	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Ffynidwydd	5	Cysgod

Llysieuol	Rhywogaeth	Dwysedd	Diben
	Cwinoa	Canolig	Maeth
	Cêl	Canolig	Maeth
	Plantannau	Uchel	Gwrthlidiol
	Garlleg Gwyllt	Uchel	Gwrthfactorol, Tirlun
	Cyfordwf	Isel	Gwrthlidiol
	Peraroglyddion e.e. Teim	Uchel	Gwrthseptig, tawelu, rhag llyngyr
	Ffacbys	Canolig	Briwiachaol, Sefydlu N
	Blodau'r gwenyn	Canolig	Gwrthlidiol

Planhigion perthi	Rhywogaeth	% o'r cymysgedd	Diben
	Draenen wen	30	Cysgod
	Masarnen fach	20	Cysgod
	Ddraenen ddu	1	Cysgod
	Llwyn pys	10	Cysgod a phrotein
	Collen	5	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Cwyrwiaail	5	Bwyd
	Piswydd	5	Bwyd
	Celynnen	2	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Vib Opulus	2	Cysgod
	Vib Lantana	2	Cysgod
	Eirinen wyllt	*	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Coed afal sur	*	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Rhosyn y cŵn	4	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Gwernen	10	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Mwyar duon	*	Bwyd a diddordeb cymunedol
	Mafon	*	Bwyd a diddordeb cymunedol